

SESIWN 5: ADDASU I'R NEWID YN YR HINSAWDD

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad Bydd dysgwyr yn ymchwilio i sut mae rhai cymunedau ledled y byd yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Byddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp i ystyried ffyrdd posibl y gallai cymuned yn Bangladesh addasu i lifogydd. Yna bydd dysgwyr yn defnyddio astudiaeth achos i archwilio'n fanylach sut mae un gymuned yn Bangladesh yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	
Amcanion dysgu <ul style="list-style-type: none">• Deall beth yw ystyr addasu i'r newid yn yr hinsawdd.• Disgrifio rhai ffyrdd y mae cymunedau o amgylch y byd yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	Deilliannau dysgu <ul style="list-style-type: none">• Bydd dysgwyr yn cydweithio ag eraill er mwyn ystyried ffyrdd posibl y gallai cymuned yn Bangladesh addasu i effeithiau llifogydd.• Bydd dysgwyr yn ymchwilio i rai dulliau y mae unigolion a chymunedau yn eu mabwysiadu er mwyn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
Cwestiynau allweddol <ul style="list-style-type: none">• Beth yw'r newid yn yr hinsawdd?• Sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl a chymunedau?• Beth y byddech yn ei wneud?• Sut y mae pobl a chymunedau yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?• Sut y mae Oxfam yn helpu cymunedau i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?	Adnoddau <ul style="list-style-type: none">• Sioe sleidiau B Her yr hinsawdd: sleidiau 9-25• Taflenni adnoddau:<ol style="list-style-type: none">1. Llifogydd yn Bangladesh2. Stori Sahena – Astudiaeth achos• Taflenni gweithgaredd:<ol style="list-style-type: none">1. Stori Sahena – Cardiau annog2. Stori Sahena – Penawdau

Gweithgaredd 5.1 (40 mun)

Beth y byddech yn ei wneud?

Sylwch fod y gweithgaredd hwn wedi'i addasu o ddeunydd dysgu Oxfam – Beth mae Oxfam yn ei wneud?:

www.oxfam.org.uk/education/resources/what-does-oxfam-do

- Dangoswch sleid 10. Trafodwch syniadau dysgwyr am yr hyn y mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ei olygu. Eglurwch fod addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ymwneud ag ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd er mwyn ceisio sicrhau bod pobl, planhigion, anifeiliaid a systemau naturiol yn llai agored i niwed. Mae Oxfam eisoes yn gweithio gyda chymunedau ledled y byd i'w helpu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Defnyddio sleidiau 11 i 13 i rannu enghreifftiau o sut mae Oxfam yn gweithio gyda chymunedau lleol i'w cefnogi i baratoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.
- Dangoswch sleid 14. Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar i chwech ac eglurwch fod angen iddynt ddychmygu eu bod yn weithwyr Oxfam sy'n gweithio yn Bangladesh. Eglurwch fod y rhan fwyaf o weithwyr Oxfam yn dod o'r wlad y maent yn gweithio ynddi a bod Oxfam yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chymunedau lleol i baratoi ar gyfer effeithiau trychinebau naturiol a mynd i'r afael â hwy.
- Rhowch gopi o Llifogydd yn Bangladesh (Taflen adnoddau 1) i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y ddalen a thrafod atebion i'r problemau a fynegir yn yr 'her grŵp' ar y daflen waith.
- Gofynnwch i grwpiau roi adborth ar eu syniadau i'r dosbarth cyfan. Yna, ewch ati i arddangos a thrafod sleidiau 15 i 18 yn fyr, sy'n rhoi enghreifftiau o sut mae Oxfam wedi gweithio gyda chymunedau lleol yn Bangladesh i ddatrys problemau a achosir gan lifogydd.
- Gan barhau i ddychmygu eu bod yn weithwyr Oxfam gan ddefnyddio arbenigedd sefydliadau a chymunedau lleol, gofynnwch i'r dysgwyr werthuso eu hatebion eu hunain ac Oxfam i'r problemau ac yna dewiswch y ddau neu dri syniad maen nhw'n eu hoffi orau. Efallai yr hoffent restru anfanteision ac anfanteision pob un i'w helpu i ddod i benderfyniad.

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i grwpiau ddewis a thrafod dim ond un neu ddwy o broblemau o'r rhestr yn Llifogydd yn Bangladesh (Taflen adnoddau 1).

Gweithgaredd 5.2 (30 mun)

Stori Sahena

- Dangoswch sleidiau 19 i 25. Mae'r sleidiau hyn yn cyflwyno Sahena Begum o bentref Kanderpara yn ardal Gainbandha Bangladesh.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch gopiâu i bob grŵp o stori Sahena - Cardiau annog a Phenawdau (Taflenni gweithgaredd 1 a 2).
- Eglurwch mai prif nod y gweithgaredd hwn yw darganfod mwy am rai o'r ffyrdd y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y gymuned hon a sut y mae'n addasu iddynt. Gofynnwch i'r dysgwyr dorri allan a darllen y cardiau annog. Yna dylent eu didoli'n dri grŵp yn ôl y penawdau hyn:
 - Pennawd 1: Sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymuned Sahena?
 - Pennawd 2: Beth mae Sahena yn ei wneud i helpu ei chymuned i addasu i'r newidiadau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd?

- Pennawd 3: Sut mae Oxfam yn helpu cymuned Sahena i addasu i'r newidiadau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd?
- Rhowch amser i'r dysgwyr rannu eu hatebion fel dosbarth cyfan.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n fwy anodd: Yn hytrach na rhannu'r cardiau annog, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r astudiaeth achos: Stori Sahena – Astudiaeth Achos (Taflen adnoddau 2). Dylai'r dysgwyr dynnu sylw at unrhyw destun perthnasol mewn tri gwahanol liw yn ôl y penawdau uchod.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Llifogydd yn Bangladesh

Taflen adnoddau 1

Penderfynu sut i gefnogi pentrefi sy'n dioddef llifogydd

Y Broblem:

Llifogydd yn Bangladesh

Mae llawer o Bangladesh yn isel, ac nid yw llawer yn uwch na lefel y môr ac mae llifogydd wedi bod yn gyffredin yno ers erioed.

Wrth i hinsawdd y byd newid, mae llifogydd yn Bangladesh yn mynd yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach.

Yn gyffredinol, mae'r bobl dlotaf yn byw yn yr ardaloedd sydd fwyaf tebygol o ddiodeff llifogydd.

Her eich grŵp:

Rydych chi'n gweithio i Oxfam. Eich gwaith chi yw gweithio gyda phobl i amddiffyn eu hunain rhag llifogydd yn y dyfodol.

Sut y gellid datrys y problemau hyn?

- Pan fydd llifogydd, gall dŵr yfed gael ei gymysgu â dŵr llifogydd budr a charthffosiaeth. Gall hyn wneud pobl yn sâl.
- Gall llifogydd olchi tai a chnydau i ffwrdd gan adael pobl heb gysgod na bwyd.
- Efallai na fydd pobl sy'n byw mewn pentrefi bach iawn, ynysig yn gwybod pryd mae'r llifogydd yn dod.
- Mae'r hinsawdd yn newid, gan wneud y tywydd yn fwy anrhagweladwy yn Bangladesh a llifogydd yn fwy tebygol.

Cofiwch ...

- Y peth gorau i'w wneud ydy helpu pobl i helpu eu hunain.
- Yr atebion syml, yn aml, yw'r rhai mwyaf effeithiol.

Ffeil Ffeithiau Bangladesh

Enw:

Bangladesh

Prifddinas:

Dhaka

Cyffandir:

Asia

Poblogaeth:

165 miliwn

Disgwyliad oes cyfartalog:

73 o flynyddoedd

Hinsawdd:

Mae gan Bangladesh hinsawdd monswn trofannol. Mae'r rhan fwyaf o law Bangladesh yn digwydd rhwng mis Mehefin a mis Medi.

Allyriadau CO₂ fesul person (tCO₂): 0.7

Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (mae'r data am y boblogaeth wedi'u talgrynnu i'r miliwn agosaf)

Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd: data.worldbank.org

Yr Atlas Carbon Byd-eang: globalcarbonatlas.org








Cydnabyddiaeth y llun: Amin/Oxfam

Yn y llun hwn mae Sahena yn gwneud ffwrn clai y gellir ei gario i dir uchel rhag ofn y bydd llifogydd. Dysgodd ei mam hi i wneud hyn. Meddai: "Mae pobl wedi paratoi'n well nawr, ond mae'r llifogydd yn gwaethygu. Erbyn hyn mae'n llawer anoddach rhagweld pryd mae'n mynd i fod yn boeth a phryd mae'n mynd i fod yn oer."

Sahena – Llywydd Pwyllgor Menywod sy'n paratoi ar avfer trvchinebau – Bangladesh

Stori Sahena – Cardiau annog

Taflen gweithgaredd 1

 <p>Sahena yn ymweld â'i chymydog Miriam Begum. Gyda chefnogaeth Oxfam a sefydliad partner lleol, GUK, mae Miriam wedi codi ei thŷ i'w ddiogelu rhag llifddwr.</p>	 <p>Dywed Sahena na all ffermwyr ragweld y tymhorau mwyach. Mae'n oer pan ddylai fod yn boeth ac yn boeth pan ddylai fod yn oer. Nid yw'r pentrefwyr bellach yn gwybod yr amser gorau i blannu na chynaeafu eu cynyau.</p>	 <p>Mae Oxfam wedi hyfforddi pobl ynghylch sut i sefydlu gerddi ar ddŵr. Mae'r gerddi wedi'u hadeiladu ar rafftau wedi'u gwneud o hiasinth dŵr.</p>	 <p>Mae Oxfam wedi cefnogi cymunedau i sefydlu pwyllgorau sy'n helpu pobl cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Maent yn cyfarfod yn wythnosol i gynllunio ar gyfer rhybuddion llifogydd a ffyrdd eraill o wella bywyd cymunedau.</p>	 <p>Gan mai Sahena yw llywydd y grŵp menywod mae hi yn gwrando'n astud ar rybuddion llifogydd ar y radio fel bod gan ei chymuned amser i baratoi.</p>
 <p>Toiled a godwyd gan y gymuned leol. Mae'n bwysig cadw toiledau a phympiau dŵr uwchben lefel y llifddwr er mwyn helpu i atal clefydau rhag lledaenu.</p>	 <p>Mae Oxfam yn darparu cyllid i brynu radios fel y gall pentrefwyr wrando ar rybuddion llifogydd. Mae un radio ar gyfer pedwar neu bum pentref, gan gyrraedd tua 300 o aelwydydd.</p>	 <p>Sahena yn gorffen gwneud ffwrn clai. Bydd y popty'n cael ei gadw'n sych ar dir uchel gyda bwyd a thanwydd, i'w ddefnyddio yn ystod llifogydd.</p>	 <p>Mae stormydd a llifogydd wedi bod yn broblem yn Bangladesh ers erioed. Ond mae'r newid yn yr hinsawdd yn golygu eu bod yn dod yn amlach ac yn fwy difrifol. Mae pobl dlawd yn dod</p>	 <p>Mae'r grŵp menywod yn trefnu bod pentrefwyr yn gweithio gyda'i gilydd i godi eu tai. Mae hyn yn helpu i gadw plant, yr henoed ac anifeiliaid yn ddiogel yn ystod llifogydd.</p>

Cydnabyddiaeth: Amin/Oxfam; Golam Rabban/Oxfam; Mary Saunders/Oxfam; Peter Caton/Oxfam

Stori Sahena - Penawdau

Taflen gweithgaredd 2

Rhannwch y Cardiau Adnabod mewn tri grŵp ar sail y penawdau hyn. Efallai y byddwch yn penderfynu bod rhai o'r cardiau yn perthyn i fwy nag un pennawd.

Pennawd 1: Sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gymuned Sahena?

Pennawd 2: Beth y mae Sahena yn ei wneud er mwyn helpu ei chymuned i addasu i'r newidiadau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu hachosi?

Pennawd 3: Sut y mae Oxfam yn helpu cymuned Sahena i addasu i'r newidiadau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu hachosi?

Stori Sahena – Astudiaeth achos

Taflen adnoddau 2

Mae Sahena Begum yn 26 oed. Mae'n byw ym mhentref Kanderpara yn ardal Gainbandha Bangladesh. Symudodd ei theulu yma ar ôl i'w cartref blaenorol a'u tir gael ei ddiinstrio gan lifogydd. Dyma'r nawfed tro iddynt symud chars er mwyn ceisio goroesi'r llifogydd. Mae Sahena yn briod â Kasim. Mae ganddynt ddau blentyn, merch, Kajili (7), a mab, Suman (4).

Llwyddodd Sahena ei phumed blwyddyn ac yna gadawodd yr ysgol. Hoffai petai wedi gallu gorffen ei haddysg.

"Dychmygwch beth allwn i fod wedi'i wneud pe bawn i wedi cael addysg. Gallwn fod wedi cael swydd iawn ... Byddwn wrth fy modd yn mynd yn ôl i'r ysgol ac ailafael yn fy addysg."

Mae Sahena a'i gŵr yn llafurwyr dydd ac yn trin eu caeau i wneud bywoliaeth. Maent yn ffermwyr amaethyddol ac yn gwneud tua 50-60 BDT (Bangladesh Taka – tua £0.50) y dydd. Fodd bynnag, nid oes digon o waith cyflogedig iddynt weithio bob dydd.

Mae llifogydd wedi bod yn rhan o fywyd yma erioed. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r glaw monsŵn blynyddol wedi mynd yn llai rhagweladwy ac yn llawer trymach. Mae llawer o bobl yn credu mai'r newid yn yr hinsawdd sy'n gyfrifol am hyn.

Yn Bangladesh, menywod sydd fel arfer yn casglu dŵr a thanwydd, yn tyfu ac yn paratoi bwyd, ac yn gofalu am eu teuluoedd. Mae'r holl dasgau hyn yn mynd yn anoddach pan ddaw'r llifogydd. Sahena yw llywydd y pwyllgor menywod lleol. Mae hi'n helpu menywod – ac felly'r gymuned ehangach – i addasu i lifogydd a pharatoi ar eu cyfer.

"Os yw menywod yn ymwybodol yna gellir achub teuluoedd rhag llawer o golledion. Gellir osgoi clefydau, gellir achub anifeiliaid, mae'r plant yn derbyn gofal priodol ac mae'r menywod eu hunain yn cael eu hachub rhag llawer o ddiodefaint."

Dysgodd aelodau'r grŵp menywod hwn i adeiladu ffwrn clai cludadwy, sydd wedyn yn cael ei storio mewn lle uchel, ynghyd â phren i'w ddefnyddio fel tanwydd. Maent hefyd wedi dechrau tyfu a chadw llyisiau. Yn ogystal â hyn, wrth weithio gyda sefydliad partner lleol Oxfam, GUK, maent wedi dechrau codi cartrefi uwchlaw'r lefelau llifogydd. Mae hyn yn golygu y gellir arbed da byw ac eiddo yn y tymor monsŵn. Fel llawer o bobl, mae Sahena wedi colli popeth i'r llifogydd mewn blynyddoedd blaenorol.

Hefyd, mae GUK wedi rhoi radio i Sahena, fel y gall drefnu cyfarfod pentref ar unwaith a lledaenu'r gair pan gaiff rhybuddion llifogydd eu darlledu. Yna, mae'n mynd gyda phlant, yr henoed ac unrhyw un sy'n sâl i'r cysgod a godwyd y bu'n helpu i'w adeiladu, sydd ddeng munud i ffwrdd ar droed.

Mae Sahena yn benderfynol iawn y bydd pethau'n wahanol. "Mae'r ffaith ein bod wedi dod at ein gilydd i ffurfio'r grŵp hwn yn destun balchder i ni fenywod," meddai. "Nid ydym yn cael ein geni i ddiodefdef. Rydym yn cael ein geni i ymladd."



Cydnabyddiaeth: Amin/Oxfam

Geiriau Allweddol

Monsŵn: Gwynt tymhorol sy'n dod â glaw i ranbarthau De a De-ddwyrain Asia.

Char: Gair Bengali yw char a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio ynys a gaiff ei ffurfio mewn afon. Mae cannoedd ohonynt yn afonydd Bangladesh. Maent yn isel a gallent brofi llifogydd.